Siarad Gyda Fi

Talk With Me

# Tips a gweithgareddau i helpu dy blentyn bach i ddysgu siarad



# Mae ymennydd dy blentyn yn anhygoel! Mae'n tyfu o hyd ac yn gwneud cysylltiadau newydd.





Pan fyddi di'n siarad ac yn chwarae gyda dy blentyn bach, byddi di'n goleuo ei feddwl ac yn helpu ei ymennydd i dyfu – ac yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddo. Bydd y pethau bach rwyt ti'n eu gwneud yn gwneud gwahaniaeth mawr, nawr ac yn y dyfodol.

Ydy dy blentyn di'n 0-5 oed? Mae llawer o adnoddau a chyngor arbenigol ar wefan **'Siarad gyda fi'** i'w helpu i ddysgu siarad.

Ar ein gwefan a'n tudalen Facebook, mae:

- Tips llawn hwyl y gelli di eu defnyddio bob dydd
- Adnoddau am ddim (fel y llyfryn hwn)
- Y cyfle i gysylltu â theuluoedd eraill yng Nghymru. Cer i **www.llyw.cymru/siaradgydafi** a dilyn **@Siarad gyda fi – Talk with me**



Sgania fi gyda'r camera ar dy ffôn!

Ein gwefan

Ein tudalen Facebook

**#SiaradGydaFi**
Tagia ni yn dy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu taith siarad dy blentyn bach! Byddem yn dwli gweld sut mae'n dod ymlaen.

# 10 tip i fy helpu i ddysgu siarad


1. Dechreua siarad gyda fi cyn i fi gael fy ngeni
2. Galla'i ddysgu ein hiaith a'n diwylliant gen ti
3. Ein lle gorau yw wyneb yn wyneb
4. Cana gân i fi unrhyw bryd
5. Beth am siarad a chwarae bob dydd
6. Beth am edrych ar lyfrau gyda'n gilydd
7. Siarada gyda fi am beth gallwn ni ei weld
8. Beth am droi 'amser sgrin' yn 'amser ti a fi'!
9. Ychwanega air at beth rwyt ti wedi fy nghlywed i'n dweud

   mawr!
10. Dwi wrth fy modd yn siarad gyda phawb!

# Taith siarad dy blentyn bach

## Pan fydd dy blentyn bach yn dechrau chwarae â synau, efallai y bydd yn...

- Gwneud sŵn fel “bababa”
- Gwylio dy wyneb pan fyddi di’n siarad ac yn mwynhau gemau fel pi-po!





## Pan fydd dy blentyn bach yn dechrau “sgwrsio” gyda ti, efallai y bydd yn...

- Dechrau defnyddio geiriau cyn hir! Efallai na fyddan nhw’n swnio fel geiriau oedolion, ond byddi di’n gwybod beth maen nhw’n ei olygu
- Mwynhau gwylio beth wyt ti’n ei wneud a chymryd ei dro i wneud synau gyda ti

## Pan fydd dy blentyn bach yn defnyddio tua 20 o eiriau, efallai y bydd yn...

- Defnyddio synau a “siarad” wrth chwarae. Efallai na fydd y geiriau yn swnio’n iawn, ond byddi di’n eu deall nhw
- Esgus wrth chwarae â phethau fel yfed o gwpan tegan



## Pan fydd dy blentyn bach yn defnyddio 50 neu fwy o eiriau, efallai y bydd yn...

- Deall brawddegau hirach, fel “mae dy esgidiau i fyny’r grisiau”
- Rhoi geiriau at ei gilydd i wneud brawddegau, fel “tedi mynd” neu “pêl Dadi”

### TIP GWYCH

Ychwanega air neu ddau i’r hyn rwyt ti wedi ei glywed yn ei ddweud. Os yw’n dweud “cath”, galli di ddweud “mae’r gath yn cysgu”

## Pan fydd dy blentyn bach yn defnyddio brawddegau hirach, efallai y bydd yn...

- Dechrau deall geiriau cwestiwn fel “pwy?”, “beth?”, “ble?”
- Mwynhau chwarae gemau gyda phlant eraill a gwybod sut i gymryd tro

Fel "Dwi wedi gweld Mam" neu "Dw i'n mynd i nôl car"



## Pan fydd dy blentyn bach yn dechrau gofyn llwyth o gwestiynau, efallai y bydd yn...

Yn enwedig "pam...?"



- Dechrau deall geiriau lliw, rhif ac amser fel “dangos tri bys i fi” a “ni’n mynd ‘fory”
- Defnyddio geiriau bydd pobl ddieithr yn eu deall. Efallai y bydd yn dal yn anodd gwneud rhai synau, fel “r”, “th”, “si”, “ts”, “ng”, “ch” ac “ll”!

## Pan fydd dy blentyn bach yn deall brawddegau hir â mwy o wybodaeth, efallai y bydd yn...

- Gwneud y rhan fwyaf o’r synau yn iawn, ond bydd geiriau hirach fel “cyfrifiadur” yn anodd!
- Defnyddio iaith mewn llawer o wahanol ffyrdd i siarad am deimladau, i berswadio eraill neu i anghytuno

fel "gad i ni chwilio am allweddi'r car cyn gwisgo'n 'sgidiau"

### TIP GWYCH

Siarada gyda dy blentyn bach am beth mae’n ei wneud yn lle gofyn llwyth o gwestiynau – gall hyn wneud i blant deimlo dan bwysau i siarad. Er enghraifft, beth am enwi pethau yn hytrach na gofyn “beth yw hwn?”

# Siarad gyda'ch gilydd bob dydd

**Gallwch droi eich trefn arferol yn gyfle i siarad a chwarae! Edrych ar rai o'n syniadau isod.**

## Amser gwisgo

Wrth helpu dy blentyn bach i wisgo, dwed beth wyt ti'n ei wneud: Er enghraifft, gallet ti ddweud: "breichiau mewn", "coesau mewn", "sanau ymlaen".

Yna gwna rywbeth doniol! Rho un o sanau dy blentyn ar ei ddwylo yn lle ei draed a gweld beth fydd yn dweud ac yn gwneud nesaf.



Dyma ffordd wych o helpu dy blentyn bach i ddysgu geiriau newydd.




## Amser brwsio dannedd

Cer wyneb yn wyneb wrth i ti helpu dy blentyn bach i frwsio'i ddannedd. Rho gyfarwyddiadau, un cam ar y tro. Er enghraifft: "gad i ni redeg y tap", "nawr gad i ni wasgu'r past dannedd".

Maen nhw wrth eu bodd pan fyddan nhw'n gwybod beth wyt ti'n mynd i'w ddweud nesaf!

## Amser bwyd

Lawr ar lefel dy blentyn, defnyddia ystumiau ar gyfer bwyta ac yfed. Mae hyn yn ei helpu i 'baru' geiriau a gweithredoedd.

Gofynna gwestiynau syml hefyd. Gallet ti ddal carton o sudd a llaeth i fyny a gofyn i dy blentyn bach: "sudd neu laeth?"

Cofia roi digon o amser i dy blentyn ateb. Trwy ddefnyddio mwy o sylwadau na chwestiynau, rwyt ti'n lleihau unrhyw bwysau y mae efallai yn ei deimlo i siarad.

Does dim ots os na all dy blentyn bach ddefnyddio geiriau eto. Os yw'n bablo, babla yn ôl!





## Amser stori

Edrychwch ar y llyfrau lluniau hyn gyda'ch gilydd a siaradwch am yr hyn y gallwch chi ei weld – does dim rhaid i ti ddilyn y geiriau ar y dudalen! Sylwa beth sydd o ddiddordeb i dy blentyn a cheisia ei gael i gymryd tro yn y sgwrs.

Pan fyddi di'n gadael i dy blentyn bach arwain, rwyt ti'n ei helpu i fagu hyder.







## Amser gwely

Wyt ti'n mwynhau rhannu hwiangerddi neu rigymau gyda dy blentyn bach? Mae hyn yn ei helpu i ddeall rhythm ac yn rhoi hwb i'w sgiliau gwrando! A bydd hyd yn oed yn fwy o hwyl os wyt ti'n cynnwys ystumiau.



# Gemau i helpu dy blentyn bach i siarad



## Chwarae â dŵr

1

Llenwa hambwrdd ag ychydig o ddŵr, tybiau bach, a thegan neu ddau. Gallet ti ailddefnyddio potiau iogwrt plastig a rhai o deganau bath dy blentyn bach.

2

Ar lefel dy blentyn bach, sylwa beth mae'n mwynhau ei wneud. Pa synau mae'n hoffi eu gwneud?

3

Dilyn ei arweiniad gan gopïo a disgrifio ei synau a'i ystumiau. Er enghraifft, gallet ti ddweud "golchi" neu "arllwys"! Bydd hyn yn helpu dy blentyn bach i gysylltu beth mae'n ei wneud gyda beth rwyt ti'n ei ddweud.



## Helfa drysor

1

Casgla eitemau bach bob dydd o bob rhan o'r tŷ a chuddia nhw mewn mannau y gall dy blentyn bach eu hestyn.

2

Pa fydd dy blentyn bach yn dod â'r eitem i ti, dwed yr enw! Galli di helpu i'w gyflwyno i eiriau newydd, a dangos sut wyt ti'n defnyddio'r eitem o gwmpas y tŷ.


3

Gallet ti greu casgliad o eitemau sy'n dechrau gyda'r un sŵn, fel "bŵt" a "bowlen".

# Ar eich marciau, barod, ewch!


1

Eistedda gyferbyn â dy blentyn bach a rholiwch bêl yn ôl ac ymlaen at eich gilydd. Dwed “Ar eich marciau, barod, ewch!” cyn rholio’r bêl.



2

Pan fydd dy blentyn bach yn gyfarwydd â’r geiriau hyn, aros cyn dweud “ewch”. Os bydd dy blentyn bach yn dweud wrthot ti i rolio’r bêl, dwed “ewch” a’i rholio iddo.



3

Galli di ddefnyddio “Ar eich marciau, barod, ewch!” pan fyddwch chi allan hefyd. Mae’n ffordd wych o ymarfer sgiliau gwrando a chael ychydig o hwyl.



# Glŵp!

1

Rho flawd corn mewn bowlen neu ar hambwrdd. Ychwanega ddŵr nes ei fod yn bast trwchus ac yna rho ychydig o ddiferion o liw ynddo.

2

Ydy dy blentyn bach yn hoffi diferu neu grafu’r glŵp gan ddefnyddio llwy? Dilyn sut mae’n chwarae a defnyddia eiriau llawn hwyl fel ‘sticlyd’.


3

Os yw’n parablu, parabla yn ôl! Galli di ei helpu i ymgyfarwyddo â geiriau newydd drwy ddisgrifio beth wyt ti’n ei weld. Er enghraifft: “mae’r glŵp yn sownd ar fy llaw!”




# Gwna'r mwyaf o'r drefn arferol o gwmpas y tŷ

Does dim angen teganau i chwarae gyda dy blentyn bach. Ti mae ei eisiau! Ceisia gynnwys dy blentyn yn y drefn arferol o gwmpas y tŷ a siarad ar hyd y ffordd.




## Gwneud y gwely

All dy blentyn dy helpu di i newid y dillad gwely? Gofyn iddo basio'r cynfasau neu dynnu'r casys ar y gobenyddion. Beth am chwarae gêm gyfarwydd fel pi-po?



## Golchi'r llestri

Gad i dy blentyn bach arwain wrth i chi olchi'r llestri gyda'ch gilydd! Ychwanega eiriau newydd i'r hyn rwyt ti'n ei glywed yn dweud. Os yw'n dweud "cwpan", gallet ti ddweud "cwpan mawr".



## Golchi dillad

Rhowch y dillad mewn gwahanol bentyrrau gyda'ch gilydd, neu gad i dy blentyn bach dy helpu i'w tynnu o'r fasged. Am bob cwestiwn rwyt ti'n ei ofyn, gwna bedwar sylw i'w helpu i ymuno ar ei gyflymder ei hun.



## Cadw'r siopa

Rho bethau ysgafn i dy blentyn bach, fel bara neu basta. Yna dwed enw'r eitemau a phwyntio at le maen nhw'n byw yn y gegin. Bydd dy blentyn yn gwylio ac yn gwrando arnat ti, felly rwyt ti'n ei helpu i ddysgu geiriau newydd drwy'r amser!





# Cana rigwm ar unrhyw adeg...

Mae dy blentyn bach wrth ei fodd pan fyddi di'n mynd wyneb yn wyneb i rannu rhigymau a chaneuon. Alli di wneud dy rigymau newydd dy hun, gan ddefnyddio enwau pobl a llefydd mae'n gyfarwydd â nhw?

## Mi Welais Jac-y-do

Mi welais jac-y-do
Yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ei ben a dwy goes bren,
Ho-ho, ho-ho, ho-ho!

Mi welais iâr fach yr ha'
Yn mynd i werthu ffa,
Fe'u gwerthodd yn rhes
Ond collodd y pres,
Ha-ha, ha-ha, ha-ha!

Hen fwnci bach o Lŷn
A aeth i dynnu'i lun,
Edrychodd yn syn
A chwarddodd fel hyn,
Hi-hi, hi-hi, hi-hi!

Hen geiliog dandi do
A redodd i'r cwt glo,
Mi welodd gi mawr
A gwaeddodd fel cawr,
Go-go, go-go, go-go!

Hyd yn oed cyn ei eni, mae canu gyda dy blentyn bach yn ei wneud i deimlo'n dawel, yn ddiogel ac yn hapus!



Sgania fi gyda'r camera ar dy ffon!

Edrych ar gasgliad rhigymau a chaneuon Cyw

Chwilia am fwy o rigymau!



Siarad Gyda Fi
Talk With Me

## Wyt ti'n poeni am allu dy blentyn i siarad?

Os wyt ti wedi defnyddio ein hadnoddau ac yn credu bod angen mwy o gefnogaeth, mae llawer o wasanaethau ledled Cymru i helpu dy blentyn bach â'i sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu:

- Cysyllta â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol: **www.llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol**
- Siarada gyda'r staff ym meithrinfa dy blentyn; neu
- Cysyllta â dy Weithiwr Iechyd i gael rhagor o gyngor

**I gael rhagor o dips a chyngor ar gael dy blentyn bach i siarad:**

**www.llyw.cymru/siaradgydafi**

Diolch i dîm lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg Caerdydd am eu holl gymorth gyda syniadau ar gyfer y llyfryn hwn. Datblygwyd y lluniau yn y llyfryn hwn gan Laura Wood (www.laurawoodillustration.com). I gael rhagor o wybodaeth i deuluoedd: www.llyw.cymru/plant-theuluoedd